# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER 23.02.2022 AM 7.00 drost zoom

**Presennol –** Cynghorwyr

Menna Jones
Edgar Owen
Liz Daniel
Iwan Davies
Erddin Llwyd
Hawys Tuff
Shoned Rees Griffith (Clerc)

**1. Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

**2. Ymddiheuriadau –** Cyng DelythJ, Cyng SB, Cyng TP.

Hoffai'r Cyngor Cymuned gydymdeimlo gyda'r Cyng Cain Thomas a'r teulu yn eu brofedigaeth yn ddiweddar o golli ei dad, Dafydd. Roedd Dafydd yn hogyn o'r Waun, ac yn gyfaill annwyl i'r mwyafrif ohonom. Anfonwn ein cydymdeimlad dwys atoch i gyd fel teulu.

**3. Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.**

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

**4. Derbyn Cofnodion 12.01.2022**

Y Cyng EO yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, Y Cyng ELL yn eilio.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion 12.01.2022**

**Materion Caeathro** –
**Ffordd Osgoi Bontnewydd** – Wedi agor,
**Troedffordd o Gaeathro i Gaernarfon -** Dal ar yr agenda
**Eisteddfod Genedlaethol -** Penderfynwyd trefnu cyfarfod cyhoeddus yn y Ganolfan yn Waunfawr ar y 14.03.2022 am 7.30 yr hwyr er mwyn cychwyn ar y trafodaethau. Cyng MJ i holi os yw Caeathro am ymuno gyda Waun i godi'r arian a chadarnhau gyda'r Clerc.
**Drych -** aros ymateb Cyngor Gwynedd
**Peblig -** Adran Cynllunio y Cyngor ddim yn ymwybodol o be sy'n mynd ymlaen yma.

**Materion Waunfawr** –
**Llinnellau Gwyn –**.Dal i aros Cyngor Gwynedd, wedi derbyn cadarnhad eu bod ar y rhaglen waith.
**Ffordd Cefn Du -** tyllau yn cael eu cau yn araf.

**Les tir tu ol i'r Ganolfan** / **Cae Aml-dywydd** - Wedi derbyn y Les gan Cyngor Gwynedd i'w harwyddo. Aros gwybodaeth gan Cyngor Gwyned am amcan gost rhedeg y cae yn flynyddol.
**Golau fflachio bob ochr i'r pentref –** Clerc wedi trafod gyda Dr Esyllt Llwyd, oedd yn cytuno fod yn syniad da, ac y byddai yn ei drafod yn eu cyfarfod misol ynglyn 'ar Ganolfan Iechyd Newydd.
**Cyflymder traffic drwy'r pentref a materion eraill –** Heddlu yn y pentref yn aml.
**Gwefan y Cyngor Cymuned –** Aros ymateb gan Smala ynglyn a'r cyfeiriad e-byst.
**Eisteddfod Genedlaethol -**. Targed y Cyngor Cymuned yw £2,000. Gweler sylwadau uchod o dan Caeathro.
**Drych** - aros ymateb Cyngor Gwynedd
**Coeden Nadolig** - Clerc wedi holi Cyngor Cymuned Llanrug ynglyn a'r goleuadau nadolig, aros i dderbyn gwybodaeth.

**6.** **Gerddi Bach -** Y swing wedi eu gosod, angen dod yn nol gyda un sedd ohewydd eu bod wedi torri y chaen yn rhy fyr, y mat rwber o dan y sleid wedi ei newid ond heb gael ei begio i'r ddeaer, Clerc i gysylltu gyda'r Cwmni. Grwp Cynefin wedi gofyn am restr enwau ar gyfer y tai. Slab ar gyfer gosod y bin i'r maes Chwarae wedi cael ei osod ar waelod y llwybr troed, ni fydd hyn o ddefnydd i ddefnyddwyr y Cae Chwarae rheswn a roeddwyd oedd bod y steps ddim yn cydymffurfio a Iechyd a Diogelwch. Clerc i holi Cyngor Gwynedd.

**7.** **Safle Glyn Rhonwy –** Dim pellach i'w adrodd. Tynnu oddi ar yr agenda erbyn cyfarfod nesaf.

**8.** **Adroddiadau**

**a.** **Lloches Bws** - Wedi derbyn gohebiaeth ynglyn a safleoedd bws newydd yn cael eu gosod yn y pentref, mi fyddwn yn cadw'r safle bws drost y ffordd a'r hen bost, ac yn cadw y ddau safle bws sy'n cael eu newid ar gyfer eu hail osod mewn manau eraill yn y pentref e.e Groeslon ac wrth yr Ysgol ar gyfer plant ysgol Brynrefail. Hyn i'w drafod ymhellach gyda Cyngor Gwynedd.

**b.** **Y Fynwent -** Angen copi terfynol Rheolau'r Fynwent i gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn - Cyng SB i rannu gyda ni. Angen trafod ffioedd newydd. Clerc i'w drefnu.

**c.** **Toiled** - Dim

**ch.** **Llwybrau -** Cyng EO yn nodi bod angen codi wal ar y llwybr tu cefn i'r Gofgolofn mynd i holi hogyn lleol am bris i'w adnewyddu.

**d**. **Y Ganolfan** -Dim

**9.** **Materion Cynllunio**

**a.** **Ceisiadau newydd**

| **Dyddiad Cofrestru** | **Bwriad** | **Lleoliad** | **Rhif Cais** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| PAC | | Safle Gwaith Brics Caernarfon | | Ymateb fel ac o'r blaen |

**10. Gohebiaeth**

Unllais -
Eco'r Wyddfa - Dyddiad ar gyfer derbyn newyddion
Clwb Bowlio - llythyr diolch am y rhodd
Cyngor Gwynedd - Safel Peblig, Caernarfon
Cyngor Gwynedd - Uwchraddio Llochesi Bws
Cyngor Gwynedd - Rhybudd Cau'r Ffordd Ddi Ddosbarth gyferbyn a Fron Lwyd,
Cyngor Gwynedd - Biniau Halen, y Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb yn nol drostynt.
Antur Waunfawr - pwy ennilliodd y Gadair yn Eisteddfod Bentref 1948
Cyngor ar Bopeth - Cymorth efo ynni
Llwybrau - Gorchymyn cau llwybrau Dros Dro - Ffordd osgoi C'fon a Bontnewydd
Cyngor Gwynedd - Preasept 2022/23
Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionnydd 2023
Age Cymru Gwynedd a Mon - Prydau yn y cartref
Etholwr o'r pentref - bin personol yn cael ei ddefnyddio gan eraill ar gyfer baw ci.
HM Catering - gofyn am ganiatad i ddod i'r pentref unwaith yr wythnos, Clerc i gysylltu a hwy i drafod lleoliad. Dim gwrthwynebiad mewn egwyddor
Smala - cyfeiriadau e-bost.
Cyngor Gwynedd - ail wynebu cilffordd Bontnewydd rhif 22 rhwng Fferm Ysbytu a Phlas Glan yr Afon, Caeathro
Cynllun Draenio - Gerddi Bach,- dim gwrthwynebiad ond angen cadarnhad y bydd y safle yn cael ei adael yn daclus ac yn nol fel ac y mae.

**11. Materion Ariannol**

**11.1 Arian wedi ei dalu allan**

| | |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd (bin brown cofgolofn) | £36.00 |
| Glasfryn | £348.00 |
| Cyflog Clerc Ionawr | £258.00 |
| H M Revenue & Customs | £52.00 |

**11.2 Arian a dderbyniwyd**

**11.3 Anfonebau i'w talu**

| | |
|---|---|
| Cyflog clerc Chwefror | £258.00 |
| H M Revenue & Customs | £52.00 |

**12. Archwiliad Blynyddol**

Aros ymaeb gan y Archwilwyr Allanol.

**13. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf**

Cyfarfod nesaf – 06.04.2022

**17. Materion Aelodau. -**

Cyng EO - Dim wedi ei dderbyn
Cyng SB - Dim wedi ei dderbyn
Cyng DJ - Dim wedi ei dderbyn
Cyng ID - Cyflwr y wal fyny Lon Ysgol, ac hefyd Bro Waun - angen cysylltu ac Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd, ond perchenno y tir sy'n gyfrifol
Cyng ELl - Dim wedi ei dderbyn

Cyng LD - Cofnodion Eco'r Wyddfa - barod i'w hanfon yn dilyn y cyfarfod.
Cyng MJ - Dim wedi ei dderbyn
Cyng DJ - Dim wedi ei dderbyn
Cyng CT - Dim wedi ei dderbyn
Cyng HT - Eco'r Wyddfa - adroddiad o gofnodion y CC i'r Eco.
Cyng TP - Dim wedi ei dderbyn

Bydd gofyn i'r Cynghorwyr i gyd lenwi ffurflen i gofrestru fel Cynghorydd eto oherwydd bod etholiad yn mis Mai.  Clerc heb dderbyn y pecynnau eto.